

PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO - DYDD IAU, 21 MAI 2026

COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO A GYNHALIWDYD YN HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR, Y SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL PEN-Y-BONT AR OGWR CF31 4WB DDYDD IAU, 21 MAI 2026 AM 10:00

Presennol

G Chapman – Cadeirydd (Aelod Lleyg)

O Clatworthy

Presennol yn Rhithwir

A R Berrow

S Easterbrook

RM Granville

~~MAIR Berrow~~

Aelodau Lleyg - Presennol yn Rhithwir

D Austin

A Bagley

B Olorunnisola

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

RL Penhale-Thomas

Datganiadau o Fuddiannau

Dim

Swyddogion:

Nigel Smith
Joanne Norman
Andrew Wathan
Joan Davies
Kate Pask
Sara-Jane Byrne

Rheolwr Grŵp - Prif Gyfrifydd
Dirprwy Bennaeth Cyllid Dros Dro
Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol
Dirprwy Bennaeth Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol
Rheolwr Polisi a Pherfformiad Corfforaethol
Archwilio Cymru

PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO - DYDD IAU, 21 MAI 2026

Helen Goddard
Rachel Keepins
Oscar Roberts
Stephen Griffiths

Archwilio Cymru
Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd
Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau
Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau

284. Ethol Cadeirydd

Y Penderfyniad Wnaed	<u>PENDERFYNWYD:</u> Penodwyd G Chapman yn Gadeirydd.
Dyddiad Gwneud y Penderfyniad	21 Mai 2026

285. Ethol Is-gadeirydd

Y Penderfyniad Wnaed	<u>PENDERFYNWYD:</u> Penodwyd A Bagley yn Is-gadeirydd.
Dyddiad Gwneud y Penderfyniad	21 Mai 2026

286. Cymeradwyo'r Cofnodion

Y Penderfyniad Wnaed	<u>PENDERFYNWYD:</u> Cymeradwywyd Cofnodion y cyfarfod ar 29 Ionawr 2026 (a ailgynnullwyd ar 2 Chwefror 2026) fel cofnod gwir a
----------------------	--

PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO - DYDD IAU, 21 MAI 2026

	chywir.
Dyddiad Gwneud y Penderfyniad	21 Mai 2026

287. Cofnod Gweithredu'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

Y Penderfyniad a Wnaed	Diben yr adroddiad oedd rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am Gofnod Gweithredu'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Nodwyd bod yr Aelodau wedi derbyn diweddariadau drwy e-bost, mewn perthynas â'r materion canlynol cyn y cyfarfod: 13 Mai: Cynhwysydd Llong. 18 Mai: Argymhellion archwilio mewnol hwyr ar Benodi Ymgynghorwyr, Darpariaeth Amgen y Bont, a Safonau'r Gymraeg. <u>PENDERFYNWYD:</u> Bod y Pwyllgor wedi nodi'r Cofnod Gweithredu.
Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad	21 Mai 2026

288. Adroddiadau Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Archwilio Cymru

Y Penderfyniad a Wnaed	Diben yr adroddiad hwn oedd cyflwyno dau adroddiad gan Archwilio Cymru i'r Pwyllgor, fel a ganlyn:
------------------------	--

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr – Crynodeb Archwiliad Blynyddol 2025 – (Atodiad A).
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr – Cynllun Archwilio 2026 – (Atodiad B).

Mewn ymateb i'r adroddiadau, cododd yr Aelodau'r materion canlynol:

- Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol – Ei berfformiad ac achosion cyfreithiol parhaus. Mewn ymateb, tynnodd cynrychiolydd o Archwilio Cymru sylw at y ffaith eu bod yn aros i weld sut gallai'r ailbrisio tair blynedd effeithio ar y cynllun, a'u pryder oedd sicrhau bod canlyniadau'n cael eu datgelu a'u cyfrif yn gywir o fewn y cyfrifon yn hytrach nag asesu perfformiad y gronfa pensiwn ei hun. O ran yr achosion cyfreithiol sy'n parhau, y materion allweddol iddynt oedd a oeddent wedi cael eu hystyried o fewn y gwerthusiad actiwaraidd, ac a fyddai angen unrhyw ddatgeliadau ychwanegol yn y cyfrifon ar gyfer unrhyw rwymedigaethau amodol. Nododd y gellid anfon rhagor o fanylion at yr Aelodau. O ran perfformiad, nododd y Rheolwr Grŵp – Prif Gyfrifydd, ei fod wedi derbyn yr adroddiadau cychwynnol gan yr actiwari a'i fod yn dangos gwarged eto'r flwyddyn ariannol hon.
- Y gwaith cenedlaethol sy'n cael ei wneud gan Archwilio Cymru. Mewn ymateb i'r mater hwn, nododd cynrychiolydd o Archwilio Cymru fod y flaenraglen waith, a oedd yn cynnwys y rhaglen waith genedlaethol, ar gael ar eu gwefan: <https://www.audit.wales/cy/forward-work-programme>.
- A fyddai etholiadau llywodraeth leol ym mis Mai 2027, a'r cyfnod blaenorol cyn yr etholiad, yn cael effaith ar y gwaith sy'n cael ei wneud ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Mewn ymateb, nododd, er eu bod yn hyderus y byddent yn cyflawni eu rhaglen waith, fod yr etholiadau ar eu radar ac y byddent yn monitro sut mae'n gweithio allan yn ymarferol, yn enwedig o ran cyhoeddi adroddiadau.
- Cau cyfrifon ar gyfer Cydbwyllgor Corfforaethol De-ddwyrain Cymru. Nododd y Cadeirydd y byddent yn cau eu cyfrifon ddiwedd mis Mai, a bod hyn yn cynrychioli gwelliant enfawr ar y blynyddoedd blaenorol. Rhoddodd hyn gyfle i ymgorffori'r cyfrifon drafft yng nghyfrifon Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

PENDERFYNWYD:

Bod y Pwyllgor wedi nodi Adroddiadau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Cymru yn Atodiad A ac Atodiad B.

Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad	21 Mai 2026
---------------------------------	-------------

289. Dogfen Traciwr Rheoleiddio

Y Penderfyniad a Wnaed	Diben yr adroddiad hwn oedd rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar y Traciwr Rheoleiddio a ddiweddarwyd hyd at ddiwedd chwarter 4 (Ch4) 2025–26, ac argymhellion sydd wedi'u cau ers yr adroddiad diwethaf i'r Pwyllgor ym mis Hydref 2025 (chwarter 2 (Ch2) 2025–26). Mewn ymateb i'r adroddiad, tynnodd yr Aelodau sylw at gwpl o faterion: • Ystyr a gwerth y statws Coch, Ambr, a Gwyrdd (RAG) a gymhwysir i brosiectau a mentrau yn y Traciwr Rheoleiddio. Tynnwyd sylw at y Strategaeth Ddigidol fel pryder penodol o ran y berthynas rhwng rhywbeth a oedd wedi cael statws coch neu ambr. • A oedd sgôr ambr yn briodol ar gyfer R2: Rheoli Risg, mewn perthynas ag adroddiad Archwilio Cymru, Gwasanaeth Cynllunio a Datblygu (Tachwedd 2025). Nododd y Rheolwr Polisi a Pherfformiad Corfforaethol y byddai'n tynnu sylw at y pryder hwnnw gyda swyddogion sy'n aseinio statws RAG. • A ellid darparu gwybodaeth ychwanegol a nodiadau esboniadol yn ôl yr angen, yn ogystal â derbyn yr adroddiadau rheolaidd gyda dyfyniadau o'r traciwr rheoleiddio llawn, lle mae argymhellion wedi parhau i fod heb eu gweithredu ers blynyddoedd lawer. <u>PENDERFYNWYD:</u> Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi ystyried y pwyntiau crynodeb a chynnwys Atodiad 1 ac Atodiad 2 a chodwyd materion o bryder i'w dilyn gan y Rheolwr Polisi a Pherfformiad Corfforaethol. Yn ogystal, gofynnodd y Pwyllgor i'r adroddiad diweddarau a oedd i'w ystyried yn y cyfarfod ar 16 Gorffennaf 2026 ddarparu gwybodaeth ychwanegol a nodiadau esboniadol, lle mae argymhellion wedi parhau heb eu gweithredu ers blynyddoedd lawer.
------------------------	---

Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad	21 Mai 2026
---------------------------------	-------------

290. Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol

Y Penderfyniad a Wnaed	Diben yr adroddiad hwn oedd cyflwyno'r Cod Llywodraethu Corfforaethol (y Cod) diweddaredig i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i'w ystyried a'i gymeradwyo. Mewn ymateb i'r adroddiad, cododd yr Aelodau gwpl o faterion: • A oedd angen cynnwys manylion mentrau gyda dyddiadau penodol, o ystyried na ddylai dogfen o'r fath gael ei chyfyngu gan ddyddiad ac amser. • Bod cynnwys drafft o'r ddogfen gyda newidiadau manwl (Atodiad A) yn arbennig o ddefnyddiol. • Roedd cynnwys camau gweithredu a'r dystiolaeth i'w cefnogi hefyd i'w groesawu ond, wrth feddwl sut y gallai trigolion dderbyn dogfennau o'r math hwn, roedd yn bwysig meddwl am y cwestiwn 'felly beth', i gofnodi pam mae camau gweithredu a'r pethau a restrir fel dystiolaeth i gefnogi eu gweithredu yn bwysig. • A oedd y fframwaith llywodraethu yn real ac yn gweithio'n ymarferol. Mewn ymateb, nododd y Rheolwr Grŵp – Prif Gyfrifydd fod y ddogfen yn nodi beth sydd ar waith a'r dystiolaeth i gefnogi hynny. Adolygwyd y Cyngor yn fewnol ac yn allanol a rhoddodd hyn fwy o sicrwydd. Byddai'r Datganiad Cyfrifon yn cael ei gyflwyno i'w ystyried gan yr Aelodau yng nghyfarfod mis Gorffennaf y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, ac roedd hyn yn cynnwys asesiad o lywodraethu'r Cyngor. Byddai hyn yn cynnwys rhagor o dystiolaeth i gefnogi'r trefniadau sydd ar waith. • Pam roedd y Cyngor yn teimlo bod angen mwy o gapasiti arweinyddiaeth uwch arno. Mewn ymateb, nododd y Cadeirydd fod hwn yn fater i'w ystyried mewn man arall. • Y dylai'r ddogfen gyfeirio at 'Aelodau', yn hytrach nag 'Aelodau Etholedig', o ystyried bod 'Aelodau Lleyg' hefyd. • A oedd hi'n bosibl rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Rheolwr Grŵp – Prif Gyfrifydd i wneud mân newidiadau
------------------------	--

PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO - DYDD IAU, 21 MAI 2026

	i'r ddogfen, fel y gall esblygu fel dogfen organig, cyn ei chyflwyno'n flynyddol i'r Pwyllgor i'w chymeradwyo. <u>PENDERFYNWYD:</u> Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi ystyried a chymeradwyo Cod Llywodraethu Corfforaethol diweddaredig y Cyngor yn Atodiad B, yn amodol ar yr eglurhad ynghylch diffiniad 'Aelod'. Argymhellodd y Pwyllgor y dylid ymgynghori â'r Swyddog Monitro ynghylch a ellid rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Rheolwr Grŵp – Prif Gyfrifydd i wneud mân newidiadau i'r Cod Llywodraethu Corfforaethol wrth iddynt godi, ac i'r rhain gael eu hadrodd i'r Pwyllgor fel rhan o gyflwyniad blynyddol y Cod i'r Pwyllgor.
Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad	21 Mai 2026

291. Dull Hunanasesu ar gyfer 2025/26

Y Penderfyniad a Wnaed	Diben yr adroddiad oedd myfyrio ar hunanasesiad 2024/25 a chyflwyno amlinelliad o'r dull o ddatblygu hunanasesiad 2025/26 i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Mewn ymateb i'r adroddiad, cododd yr Aelodau'r materion canlynol: O ystyried bod y broses hunanasesu yn cynnwys y Cyngor yn asesu ei berfformiad ei hun, a oedd mesurau diogelwch ar waith i sicrhau bod y broses yn wirioneddol wrthrychol a thryloyw i drigolion, ac yn atal adrannau rhag rhoi sgoriau rhy gadarnhaol iddynt eu hunain. Mewn ymateb, roedd y Rheolwr Polisi a Pherfformiad Corfforaethol yn gobeithio y gallai'r Aelodau fod yn sicr bod data'r cynllun corfforaethol a ddefnyddiwyd i gynhyrchu'r sgôr gychwynnol yn eithaf cadarn. Cytunwyd ar y targedau gan y Cyngor llawn bob blwyddyn ar ffurf Cynllun Cyflawni'r Cynllun Corfforaethol a'u craffu bob chwarter. Caiff dyfarniadau eu cymedroli'n drwm gan Benaethiaid Gwasanaeth, gan Brif Swyddogion ac yna gan y Tîm
------------------------	--

PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO - DYDD IAU, 21 MAI 2026

	Rheoli Corfforaethol a Chabinet (CCMT), ac yna cânt eu hystyried gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol (COSC) a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Rhyngddynt, gobeithir y bydd hynny'n rhoi sicrwydd ei fod yn rhoi cynrychiolaeth deg o sut mae'r Cyngor yn gwneud. • Gwerth asesiad gan gymheiriaid, a'r mewnwelediadau amhrisiadwy, cadarnhaol a negyddol, sy'n deillio o Asesiad y Panel Perfformiad, a gynhaliwyd ym mis Medi 2025. <u>PENDERFYNWYD:</u> Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi nodi'r dull arfaethedig o baratoi'r hunanasesiad blynyddol ar gyfer 2025–26.
Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad	21 Mai 2026

292. Siarter Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol 2026–27

Y Penderfyniad a Wnaed	Diben yr adroddiad oedd cyflwyno Siarter y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol ar gyfer 2026–27 i'r Aelodau i'w ystyried a'i gymeradwyo. Mewn ymateb i'r adroddiad, cododd Aelod y materion canlynol: • Bod y Siarter yn cyfeirio at fynediad ac annibyniaeth anghyfyngedig ar gyfer archwilio mewnol ac yn gofyn a oedd unrhyw achlysuron lle'r oedd archwilwyr yn cael anhawster i gael gwybodaeth neu gael mynediad. Mewn ymateb, nododd Dirprwy Bennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol (RIAS) fod problemau a chamddealltwriaethau weithiau, ond eu bod yn codi yn bennaf oherwydd nad oedd unigolyn yn deall yr hyn yr oedd yr archwilydd yn gofyn amdano neu nad oedd ganddynt yr awdurdod i roi mynediad. Fel arfer, byddai'r problemau hyn yn cael eu datrys yn gyflym, ac, ym mhob achos, roedd proses uwchgyfeirio gadarn ar waith os oedd angen. • Y mesurau atebolrwydd a oedd ar waith pan fethai Adrannau dro ar ôl tro â gweithredu argymhellion
------------------------	---

PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO - DYDD IAU, 21 MAI 2026

	archwilio. Nododd Dirprwy Bennaeth RIAS fod argymhellion yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn rheolaidd a bod y Tîm Rheoli hefyd yn monitro'r argymhellion. Yn y pen draw, roedd swyddogion yn atebol i'r Prif Weithredwr ac Aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Ychwanegodd y Cadeirydd, os oedd unrhyw rwystrau, fod gan y Pwyllgor yr hawl i alw Cyfarwyddwr neu Bennaeth Gwasanaeth i esbonio pam nad yw rhywbeth wedi newid neu wedi'i weithredu. • Y dylid ystyried a oedd anghenion hyfforddi mewn perthynas â materion fel y broses archwilio a deddfwriaeth newydd, ar gyfer swyddogion ar draws y Cyngor ac Aelodau'r Pwyllgor. • A oedd RIAS ar agor i gyrff eraill y sector cyhoeddus ymuno â'r bartneriaeth. Mewn ymateb, nododd Pennaeth RIAS eu bod yn uchelgeisiol ac eisiau bod yn ddarparwr rhanbarthol o wasanaethau archwilio mewnol o fewn y sector cyhoeddus. Byddai'n croesawu unrhyw sgysiau gydag awdurdodau lleol neu sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus i ymuno â nhw fel rhan o wasanaeth rhanbarthol. <u>PENDERFYNWYD:</u> Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi ystyried a chymeradwyo Siarter y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol ar gyfer 2026–27 fel y'i hatodir yn Atodiad A i'r adroddiad hwn.
Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad	21 Mai 2026

293. Hunanasesiad y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

Y Penderfyniad a Wnaed	Diben yr adroddiad oedd rhoi sicrwydd bod Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'r Cyngor yn gallu dangos ei effeithiolrwydd yn erbyn yr egwyddorion arfer da a osodwyd gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) gan ddefnyddio'r offer hunanasesu a ddarparwyd. Mewn ymateb i'r adroddiad, cododd yr Aelodau gwpl o faterion: • Nodwyd bod yr adroddiad yn dda ac yn deg ond tybed sut roedd yn cymharu â'r tro diwethaf iddo gael ei
------------------------	---

PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO - DYDD IAU, 21 MAI 2026

	gynnal. Mewn ymateb, nododd Pennaeth RIAS nad oedd adolygiad mor gynhwysfawr â hwn wedi'i gynnal o'r blaen ond ar ôl gweithio drwy'r canfyddiadau, teimlwyd bod y farn yn cyfateb i'r hyn a fyddai barn resymol, ac roedd hynny'n golygu nad oedd ymhell o fod yn un o sicrwydd sylweddol. Byddai adolygiadau cynhwysfawr pellach a byddent yn rhoi'r Pwyllgor mewn gwell sefyllfa i gymharu ei berfformiad ei hun o flwyddyn i flwyddyn. • Cyfrifoldeb yr Aelodau oedd monitro a gwella eu perfformiad eu hunain fel rhan o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, wedi'i hwyluso gan y rhestr wirio archwilio sy'n gysylltiedig â'r broses hunanasesu. • Mae'n debyg bod angen, cyn yr ymarfer hunanasesu nesaf, i gyflwyno gwerthusiad i'r Pwyllgor o'r hyn y mae'n ei wneud a'r graddau y mae hynny'n cyd-fynd â'r gofynion a'r disgwyliadau a nodir ar ei gyfer yn y Cyfansoddiad. • Pwysigrwydd canolog sicrhau 'gwerth am arian' wrth ddarparu gwasanaethau fel thema ar gyfer gwaith yn y dyfodol. <u>PENDERFYNWYD:</u> Bod yr aelodau wedi nodi canlyniad yr hunanasesiad o effeithiolrwydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.
Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad	21 Mai 2026

294. Diweddariad ar Flaenraglen Waith 2026–27

Y Penderfyniad a Wnaed	Pwrrpas yr adroddiad hwn oedd ceisio cymeradwyaeth ar gyfer y Flaenraglen Waith ddiweddaredig ar gyfer 2026–27. <u>PENDERFYNWYD:</u>
------------------------	---

PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO - DYDD IAU, 21 MAI 2026

	Bod y Pwyllgor wedi ystyried a chymeradwyo'r Rhaglen Waith ddiweddaedig ar gyfer 2026–27, yn amodol ar y gwelliannau canlynol i'r agenda ar gyfer y cyfarfod ar 16 Gorffennaf 2026: • Y dylid cyflwyno diweddariad ar y materion a amlygwyd yn y drafodaeth ar y Traciwr Rheoleiddio fel rhan o'r adroddiad hwnnw. • Bod yr adroddiad Hunanasesiad drafft yn cael ei gyflwyno.
Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad	21 Mai 2026

295. Eitemau Brys

Y Penderfyniad a Wnaed	Dim Diolchodd y Cadeirydd i'r Cynghorwyr M. Williams a C. Davies am eu cyfraniad at waith y Pwyllgor, a chroesawodd yr aelodau newydd, y Cynghorwyr A. R. Berrow a J. Llewellyn-Hopkins. Gofynnodd y Cadeirydd am baratoi llythyr a'i anfon at y Dirprwy Bennaeth Cyllid, yn mynegi dymuniadau gorau'r Pwyllgor am welliant buan.
Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad	21 Mai 2026

I wyllo dadl bellach a gynhaliwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch ar y this [ddolen](#) hon.

Daeth y cyfarfod i ben am 11:29.